COFNODION CYFARFOD CYD-BWYLLGOR ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY
A GYNHALIWYD
DYDD GWENER, 25 MEHEFIN 2021

AELODAU'N BRESENNOL

Y Cynghorydd Tony Thomas (Cadeirydd) (Cyngor Sir Ddinbych)
Y Cynghorydd Carolyn Thomas (Cyngor Sir y Fflint)
Y Cynghorwyr Hugh Jones a David Kelly (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

HEFYD YN BRESENNOL

Steve Gadd (Pennaeth Cyllid ac Eiddo Cyngor Sir Ddinbych), Howard Sutcliffe (Swyddog AHNE Cyngor Sir Dinbych), David Shiel (Swyddog Cynorthwyol AHNE Cyngor Sir Ddinbych), Karen Weaver (Cydlynydd AHNE Cyngor Sir Ddinbych), Paula O'Hanlan (Uwch Swyddog Cyllid Cyngor Sir Ddinbych), Huw Rees (Rheolwr Gwasanaethau Cefn Gwlad a Threftadaeth Cyngor Sir Ddinbych), Ceri Lloyd (Swyddog Cronfa Datblygu Cynaliadwy AHNE), y Cynghorydd Glyn Banks, Lisa Jones a Sandra Williams (Cyfieithydd, Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam).

1 CYFLWYNIADAU, YMDDIHEURIADAU A DATGANIADAU O GYSYLLTIAD

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Derek Butler (Cyngor Sir y Fflint), Linda Sharp (Pennaeth Polisi Cynllunio Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Rachel Jones (Arweinydd Tîm AHNE y Gogledd) a Helen Mrowiec.

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

Ar ran y Pwyllgor fe wnaeth y Cadeirydd longyfarch y Cynghorydd Carolyn Thomas ar ei phenodiad yn Aelod Senedd rhanbarthol dros Ogledd Cymru. Diolchodd y Cynghorydd Carolyn Thomas i'r Pwyllgor a dywedodd y byddai'n parhau i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor yn rheolaidd fel arsylwr. Dywedodd y byddai'n parhau, yn ei rôl newydd, i gefnogi'r gwaith gwych y mae tîm yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) yn ei wneud.

2 PENODI CADEIRYDD

PENDERFYNWYD - Penodi'r Cynghorydd Tony Thomas (Cyngor Sir Ddinbych) yn Gadeirydd y Cyd-bwyllgor am y flwyddyn i ddod.

3 PENODI IS-GADEIRYDD

PENDERFYNWYD - Penodi'r Cynghorydd Hugh Jones (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam) yn Is-gadeirydd y Cyd-bwyllgor am y flwyddyn i ddod.

4 COFNODION CYFARFOD Y CYD-BWYLLGOR A GYNHALIWYD AR 19/03/21

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2021 a chytunwyd eu bod yn gywir.

PENDERFYNWYD - Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2021.

5 COFNODION DRAFFT CYFARFOD PARTNERIAETH YR AHNE A GYNHALIWYD AR 21/05/21

Darparwyd cofnodion drafft Partneriaeth Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a gynhaliwyd ar 21 Mai 2021 er gwybodaeth.

PENDERFYNWYD – Nodi cofnodion drafft Partneriaeth Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a gynhaliwyd ar 21 Mai 2021.

6 DATGANIAD BLYNYDDOL ADRODDIAD ARIANNOL Y CYD-BWYLLGOR (EITEM SEFYDLOG)

Cyflwynodd Pennaeth Cyllid ac Eiddo, Steve Gadd, a Paula O'Hanlon - Uwch Swyddog Cyllid a Sicrwydd eu hadroddiad ar y cyd (a gafodd ei ddosbarthu yn flaenorol).

Rhoddodd yr adroddiad grynodeb o sefyllfa ariannol yr AHNE fel yr oedd ar 31 Mawrth 2021 gofynnodd am gymeradwyaeth i'r gyllideb ar gyfer 2021/22.

Cyflwynodd y swyddogion perthnasol eu hadroddiad ac yna ateb cwestiynau yn unol â hynny. Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y materion canlynol, yn benodol:

- Roedd tanwariant cyffredinol wedi'i gyflawni ac fe'i croesawyd.
- Roedd Llywodraeth Cymru (LlC) wedi dyfarnu nifer o grantiau tua diwedd y flwyddyn ariannol; fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r cyllid hwn ar gyfer prosiectau penodol.
- Roedd y gyllideb wedi derbyn cyfraniad bach iawn o'r gronfa wrth gefn.
- Byddai'r gyllideb yn canolbwyntio fwy ar ymateb i faterion yn ymwneud â newid hinsawdd.
- Roedd system ar waith i sicrhau y gellid hawlio cyllid o gronfa Covid-19 LlC.

PENDERFYNWYD -

(i) Nodi'r sefyllfa ariannol derfynol ar gyfer 2020/21 (Atodiad 1) a Balansau'r Gronfa Wrth Gefn ar 31 Mawrth 2021 (Atodiad 4); a

(ii) Chymeradwyo'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2021/22 (Atodiad 2) a'r Datganiad Blynyddol ar gyfer 2020/21 (Atodiad 3).

7 CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL AWYR DYWYLL

Cyflwynodd David Shiel, Swyddog Cynorthwyol AHNE Cyngor Sir Ddinbych, ei adroddiad a oedd yn fersiwn ddrafft o Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) ar gyfer goleuadau yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Petai'n cael ei fabwysiadu, byddai'n cael ei ddefnyddio wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

Wrth gyflwyno ei adroddiad, cyfeiriodd at Gynllun Rheoli AHNE sy'n diffinio'r Rhinweddau Arbennig sy'n gwneud yr ardal yn dirwedd a ddiogelir yn genedlaethol. Un o'r rhinweddau arbennig a nodwyd yn y cynllun oedd tawelwch – a gafodd ei ddiffinio fel 'awyrgylch tawel a llonydd; heddwch a distawrwydd; a gydag awyr dywyll y nos'. Nodwyd y byddai'r CCA yn helpu i ddiogelu'r rhinwedd arbennig hwn trwy roi rhagor o ganllawiau i ddatblygwyr ac awdurdodau cynllunio lleol ar oleuadau.

Dywedodd y Swyddog Cynorthwyol AHNE bod Cyd-bwyllgor a Phartneriaeth yr AHNE yn ceisio cael cydnabyddiaeth ffurfiol o'r ardal fel Cymuned Awyr Dywyll gan y Gymdeithas Awyr Dywyll Ryngwladol a bod y CCA yn rhagofyniad hanfodol ar gyfer dynodiad o'r fath.

Atebodd y swyddog perthnasol gwestiynau yn unol â hynny ac yn benodol cydnabu bryder gan un aelod bod y prosiect yn annog plismona mewn perthynas â goleuadau. Cadarnhaodd nad oedd hyn yn wir, ac y byddai'r prosiect yn cael ei ddefnyddio i gefnogi canllawiau cynllunio ac yn annog mwy o ystyriaeth o ran effaith datblygiadau cynllunio.

PENDERFYNWYD - Bod y Cyd-bwyllgor yn cefnogi fersiwn ddrafft y CCA 'Cynllunio ar gyfer Awyr Dywyll y Nos - Canllaw Cynllunio Atodol ar gyfer goleuadau yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy' ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

8 ADRODDIAD BLYNYDDOL CRONFA DATBLYGU CYNALIADWY AHNE

Cyflwynodd Ceri Lloyd (Swyddog Cronfa Datblygu Cynaliadwy AHNE) adroddiad a oedd yn cynnwys y cyfnod ariannol rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021. Yn ystod y flwyddyn, roedd y Gronfa Datblygu Cynaliadwy wedi cefnogi 18 prosiect, 5 Cynllun Grant Cefn Gwlad ac 1 Cynllun Cludiant Cymunedol. Rhoddodd gyflwyniad i'r Pwyllgor a oedd yn cefnogi ei hadroddiad ymhellach.

Gan ymateb i gwestiwn, rhoddodd Ceri ddiweddariad ynglŷn â digwyddiadau cerdded tywysedig a oedd yn cael eu cynnal.

PENDERFYNWYD – Nodi'r adroddiad.

9 ADRODDIAD CYNLLUNIO BLYNYDDOL

Cyflwynodd Howard Sutcliffe, Swyddog AHNE Cyngor Sir Ddinbych, adroddiad a oedd yn tanlinellu swyddogaeth bwysig y Cyd-bwyllgor a'r Bartneriaeth wrth gynghori ar gynigion datblygu a pholisïau sy'n effeithio ar yr AHNE.

Atebodd gwestiynau yn unol â hynny ac yn ystod y drafodaeth ddilynol tynnwyd sylw at y materion canlynol yn benodol.

- Cafwyd cadarnhad bod proses briodol ar waith drwy Gyfoeth Naturiol Cymru, ble gwnaed ceisiadau i Weinidog Cymru.
- Roedd nifer y ceisiadau cynllunio wedi cynyddu.
- Cafwyd pryder gan un aelod am y cynnydd yn nifer y cytiau bugail a oedd yn ymddangos. Dywedodd y swyddogion y dylid cysylltu'n uniongyrchol â'r Adran Gynllunio o fewn yr Awdurdodau Lleol perthnasol gydag unrhyw bryderon penodol.

PENDERFYNWYD – Nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd Howard Sutcliffe, Swyddog AHNE Cyngor Sir Ddinbych, y rhaglen waith.

PENDERFYNWYD - Bod Cyd-bwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn nodi'r rhaglen gwaith i'r dyfodol.

11 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL

Dydd Gwener 5 Tachwedd 2021
Dydd Gwener 18 Mawrth 2022
Dydd Gwener 24 Mehefin 2022
Dydd Gwener 4 Tachwedd 2022